# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2374 |
| Committee | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Date | 16/07/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr John C. Morgan (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Pritchard (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Guest)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Guest)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Guest)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Guest)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Guest)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Guest)<br>Cynghorwyr Haydn Trollope (Guest)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Richard Bridge (Swyddog)<br>Andrea Prosser (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5004 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5005 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |

| | |
|---|---|
| Summary | Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol gan:-<br><br>Pennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd<br>Cynghorydd T. Sharrem |

| Item ID | 5006 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Gofynnodd Aelod os oes angen i Aelodau Etholedig sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol am wahanol weithgareddau ddatgan buddiant yn y sefydliadau allanol y maent yn gynrychiolwyr arnynt. Dywedodd y Prif Swyddog y gallai Aelodau ddatgan buddiant, fodd bynnag teimlai nad oedd angen gwneud hynny ar yr achlysur hwn gan nad oes angen unrhyw benderfyniadau.<br><br>Gwnaed y datganiadau buddiant dilynol:-<br><br><u>Eitem Rhif 7</u><br><u>Datganiad Taliadau a wnaed i Aelodau yn 2020/2021</u><br><br>Cynghorydd M. Day – Aelod Bwrdd Tai Calon<br>Cynghorydd G.A. Davies – Aelod Bwrdd Tai Calon<br>Cynghorydd J. Hill – Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Cynghorydd B. Summers – Bwrdd Silent Valley<br>Cynghorydd C. Meredith – Panel Heddlu a Throseddu |

| Item ID | 5030 |
|---|---|
| Item Title | Amser Cyfarfodydd y Dyfodol |
| Summary | CYTUNODD y Pwyllgor y bydd cyfarfodydd y dyfodol yn cychwyn am 9.30am a chynigiodd gan fod ychydig o hyblygrwydd gyda'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Democrataidd fod y dyddiad yn cael ei newid fel bo angen i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro yn nyddiadur y Cyngor i alluogi'r Cyngor i gychwyn am 9.30 am. |

| Item ID | 5031 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 5035 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 22 Mawrth 2021 |

| | |
|---|---|
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i'r Ddalen Weithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021.<br><br>Amlinellodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol Cyflogres, Iechyd a Diogelwch y Ddalen Weithredu a nodi'r ymatebion yn unol â hynny.<br><br>**<u>Taliadau i gynrychiolwyr ar gyrff allanol</u>**<br><br>Cyfeiriodd Aelod at daliadau a wneir i Aelodau Etholedig ar sefydliadau allanol a theimlai y dylent i gyd gael eu cyhoeddi. Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau na ofynnir am yr wybodaeth fel rhan o ofynion cyhoeddi y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol fodd bynnag os yw Aelodau yn dymuno i'r wybodaeth gael ei chynnwys byddai hynny ar ddisgresiwn y sefydliad dan sylw ac felly gallai'r Awdurdod ofyn, fodd bynnag efallai na chaiff ei datgelu.<br><br>Yn amodol ar yr uchod, CYTUNODD y Pwyllgor ar y Ddalen Weithredu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5036 |
| Item Title | Datganiad Taliadau a wnaed i Aelodau yn 2020/2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol Cyflogres, Iechyd a Diogelwch am yr adroddiad sy'n gofyn am gymeradwyo cyhoeddi'r Datganiad Taliadau a wnaed i Aelodau ar gyfer 2020/2021. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gofynion adrodd ar gyfer cyhoeddi'r rhestr flynyddol o daliadau a wnaed i Aelodau ar gyfer 2020/21. Dywedodd y Swyddog fod angen i'r Cyngor baratoi rhestr flynyddol o daliadau a wnaed i'w aelodau ac aelodau cyfetholedig.<br><br>Rhoddwyd trosolwg o'r wybodaeth a roddir yn Atodiad 1. Nododd Rheolwr Datblygu Sefydliadol Cyflogres, Iechyd a Diogelwch newid yn yr Atodiad yn nhermau'r swm a delir gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Cadarnhaodd y Swyddog fod y swm yn £4000.92 ac y cafodd yr adroddiad ei ddiweddaru yn barod i'w ystyried yn y Cyngor.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a rhoi cyhoeddusrwydd i'r datganiad taliadau a wnaed i Aelodau (Opsiwn 1). |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5037 |
| Item Title | Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 2021-22 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol Cyflogres, Iechyd a Diogelwch am yr adroddiad sy'n rhoi manylion Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 2021-22 ac sy'n rhoi trosolwg o'r rhestr arfaethedig ar gyfer Cyngor |

| | |
|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a roddir yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r Rhestr sy'n cynnwys y trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i bob aelod ac aelod cyfetholedig.<br><br>Nododd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol Cyflogres, Iechyd a Diogelwch newid yn Atodiad 1 a chadarnhaodd bod T. Edwards bellach wedi ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant. Ychwanegodd y Swyddog y cafodd y newid hwn ei wneud i'r adroddiad i gael ei ystyried yn y Cyngor llawn.<br><br>CYTUNODD y Cyngor i dderbyn yr adroddiad a chytunwyd cyhoeddi'r Rhestr Cydnabyddiaeth Aelodau 2021/22 (Opsiwn 1). |